# Her stepen drws Versus arthritis

**Mae'n rhaid sicrhau na aiff pobl gydag arthritis yn angof yn ystod yr Etholiad Cyffredinol eleni.**

Mae ymgeiswyr seneddol lleol ledled y DU wrthi'n brysur yn ceisio ennill ein hymddiriedaeth – ac ein pleidlais. Mae'n bwysig eu bod nhw'n clywed gan bobl leol sy'n byw gydag arthritis am yr heriau rydym yn eu hwynebu o ddydd i ddydd – a sut allan nhw hyrwyddo newid, yn lleol ac yn San Steffan, os cân nhw eu hethol.

**Dyma rai o'r cwestiynau gallwch chi eu gofyn os oes unrhyw ymgeiswyr neu gynrychiolwyr pleidiau yn curo ar eich drws:**

**Cwestiwn 1:** Yn aml iawn mae cynlluniau iechyd lleol a chenedlaethol yn methu â chydnabod bod 1 o bob 6 ohonom yn byw gydag arthritis ac yn anwybyddu'r effaith ar eu bywydau. Pe baech chi'n cael eich ethol, sut fyddech chi'n gofalu caiff arthritis ei flaenoriaethu yn y cynlluniau hyn?

**Cwestiwn 2:** Mae dros filiwn o bobl yn DU yn aros am driniaeth trawma ac orthopedig, megis llawdriniaeth gosod cluniau a phen-gliniau newydd, a allai newid eu bywydau. Pe baech chi'n cael eich ethol, sut fyddech chi'n helpu i leihau'r amseroedd aros am y math hwn o ofal sydd wedi'i gynllunio yn ein hardal ni?

**Cwestiwn 3:** Ar hyn o bryd, dydy'r cyllid tuag at ymchwil cyhyrysgerbydol ac arthritis ddim yn cyd-fynd â'r effaith sylweddol mae'r cyflyrau hyn yn ei gael ar bobl a'r gymdeithas ehangach. Pe baech chi'n cael eich ethol, sut fyddech chi'n helpu sicrhau rhagor o gyllid tuag at ymchwil cyhyrysgerbydol ac arthritis?

**Cwestiwn 4:** Mae gormod o bobl ag arthritis yn methu â gweithio yn sgil diffyg cymorth ar gyfer eu cyflwr. Mae 1 ym mhob 5 o bobl sy'n ddi-waith ar hyn o bryd yn datgan eu bod yn byw gydag arthritis neu gyflwr cyhyrysgerbydol arall. Pe baech chi'n cael eich ethol, sut fyddech chi'n gofalu bod pobl sydd ag arthritis yn derbyn y cymorth i allu cychwyn gweithio neu barhau i weithio?

**Cwestiwn 5:** Mae gan oddeutu 10,000 o blant o dan 16 yn y DU arthritis, a dydy llawer ohonyn nhw ddim yn derbyn y cymorth y mae dirfawr ei angen arnyn nhw. Pe baech chi'n cael eich ethol, sut fyddech chi'n lleisio'ch barn dros bobl ifanc sydd ag arthritis a gofalu bod gwasanaethau ar gael i gynnig cymorth i bobl plentyn a pherson ifanc sydd ag arthritis?

**Cwestiwn 6:** Versus Arthritis ydy elusen fwyaf y DU sy'n ymroi i eirioli dros y 10 miliwn o bobl sy'n byw gydag arthritis ledled y DU. Pe baech chi'n cael eich ethol, sut fyddech chi'n cefnogi'r 15,000 o bobl leol sy'n byw gydag arthritis yn eich etholaeth ac yn gweithredu fel hyrwyddwr AS arthritis drostyn nhw?